**Cofnodion Cyfarfod Fforwm Cyllid Ysgolion Ceredigion a gynhaliwyd yn Ystafell Aeron Fach, Campws Felin-fach ar nos Iau, 17 Tachwedd, 2016.**

**Yn bresennol**: Cynghorydd Hag Harris (Cadeirydd).

**Aelodau heb fod yn dod o ysgolion**: Matthew Brown (Pennaeth Gwasanaethau Dysgu)

**Aelodau o ysgolion**:
Cynrychiolwyr Ysgolion Cynradd: Lodwick Lloyd (Llywodraethwr).

**Swyddogion yr oeddent yn bresennol**: Chris Macey (Pennaeth Adnoddau a Chyllid Addysg), Anna Gawthorpe (Gwasanaethau Democrataidd).

7.00pm – 7.50pm

**1 Gweithdrefn**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod.

**2 Ymddiheuriadau**

Roedd Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Cynghorydd Paul Hinge, Donna Hanley (Pennaeth Ysgol Gynradd Aberteifi), Alwyn Ward (Pennaeth Ysgol T. Llew Jones), Meinir Lewis (Pennaeth Ysgol Gynradd Llechryd), Steve Johnson (Pennaeth Cyllid) a Barry Rees (Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau) wedi ymddiheuro na fyddai modd iddynt fod yn bresennol yn y cyfarfod.

**3 Datgelu Buddiannau Personol**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau personol.

**4 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

**CYTUNWYD** cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod ar gynhaliwyd ar 17 Mai 2016 yn gofnod cywir.

**5 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

Cofnod 5: Nodwyd bod 6 o'r 7 Ysgol Uwchradd yn y Sir yn defnyddio'r system arlwyo ddi-arian. Mae'r adborth cyffredinol yn gadarnhaol, yn enwedig mewn perthynas â'r rhai sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim.

Cofnod 10: Nodwyd na fydd prydau staff am ddim o 1 Ionawr 2017, o ganlyniad i'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Staff. O ystyried y ffaith bod y gyfraith yn mynnu bod Staff yn cael egwyl cinio, nid yw'n dderbyniol mwyach bod y Sir yn rhoi prydau am ddim i staff. Codir £3.50 am yr holl brydau i staff mewn ysgolion cynradd.

**6 Cyllidebau Dirprwyedig Drafft 2017-2018 – Sector Cynradd**

Nodwyd bod y gyllideb ddrafft wedi cael ei darparu i'r gwasanaeth, fodd bynnag, o ganlyniad i gyfyngiadau amser, nid oedd modd paratoi'r wybodaeth ar gyfer y cyfarfod hwn. Nodwyd mai copïau drafft yw'r cyllidebau dirprwyedig a gyflwynwyd i'r fforwm, ac y gallent newid ar ôl ystyried cyllideb y Cyngor Sir ym mis Ionawr.
Nodwyd bod y gyllideb ar gyfer gwersi nofio am ddim i ysgolion cynradd ac uwchradd wedi newid yn dilyn penderfyniad C38 y Cabinet ar 28 Mehefin 2016. Amlygwyd bod y

ddarpariaeth gwersi nofio wedi cael ei lleihau ar gyfer ysgolion cynradd a'i bod wedi dod i ben ar gyfer ysgolion uwchradd, sy'n golygu nad yw'n ofyniad statudol.
Hysbyswyd y fforwm o'r ffaith bod y gost fesul disgybl yn amrywio o ysgol i ysgol yn unol â maint yr ysgolion, gan bod y costau fesul disgybl yn uwch mewn ysgolion llai.
Nodwyd nad yw'r fformwla er mwyn dirprwyo cyllidebau wedi newid a bod mwy o bwysau ar ysgolion ar draws y sir yn dilyn cyfraddau chwyddiant uwch.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**7 Cyllidebau Dirprwyedig Drafft 2017/18 – Sector Uwchradd**

Unwaith eto, nododd Chris Macey, Pennaeth Adnoddau a Chyllid Addysg, mai cyllidebau dirprwyedig drafft yw'r rhain, ac y gallent newid ym mis Ionawr 2017.

Nodwyd nad yw'r fformwla er mwyn dirprwyo cyllidebau i ysgolion uwchradd wedi newid, fodd bynnag, cydnabuwyd bod amser sylweddol wedi mynd heibio ers yr ystyriwyd y fformwla, ac y bydd angen ail-werthuso'r fformwla cyn bo hir efallai.
Hysbyswyd y Fforwm o'r ffaith bod cyllidebau ysgolion uwchradd yn amrywio, gan ddibynnu ar faint yr ysgol, yn yr un modd â chyllidebau ysgolion cynradd;  yn ychwanegol i hyn, mae cyllidebau'n amrywio yn unol ag unedau arbenigol a hwylusir gan ysgolion.
Nodwyd bod gwasanaethau ar draws y sir dan bwysau ar hyn o bryd o ganlyniad i hinsawdd ariannol anodd.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**8 Perfformiad Ariannol Gwasanaethau Dysgu yn ystod Chwarter 2 2016-17**

Nodwyd bod yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Cabinet a bod y sefyllfa'n cael ei rheoli ar hyn o bryd.  Fodd bynnag, nodwyd bod y sefyllfa'n gallu bod yn gyfnewidiol ac y gallai newid.
Nodwyd y byddai'n bosibl darparu data mwy helaeth a manylder am y sefyllfa erbyn cyfarfod nesaf y Fforwm, ar ôl i'r flwyddyn ariannol ddod i ben.

**CYTUNWYD** nodi'r adroddiad.

**9 Unrhyw fater brys arall**

Nodwyd bod trafodaethau'n parhau ynghylch y sefyllfa o ran cynllun Ysgolion yr unfed Ganrif ar Hugain yng Ngheredigion.  Pan fydd gwybodaeth bellach ar gael ynghylch sefyllfa'r Cyngor mewn perthynas ag arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru, hysbyswyd y fforwm y gallai'r Cyngor fod mewn sefyllfa well i gychwyn trafodaeth gydag ysgolion.

Estynnodd y Cadeirydd ddymuniadau da i bawb dros y Nadolig.

Dyddiad y cyfarfod nesaf:  i'w gadarnhau.

**Cadeirydd:** _______________

**Dyddiad:** ____________